PAM Y GWNAETHOCH ADAEL EICH GWLAD?

Dyma geiswyr lloches a ffoaduriaid yn esbonio eu rhesymau dros ddod i'r Deyrnas Unedig

Gadawodd fy nheulu ein gwlad am fod problemau yn y wlad ac roedd yn rhy ddrud inni fyw yn y wlad. Hefyd, pe byddech yn pleidleisio i'r person anghywir fe gelech eich lladd. Byddai pleidleisio i'r blaid wleidyddol anghywir yn achosi trafferth ichi. Yn fy ngwlad i, y blaid sy'n rheoli yw'r blaid boblogaidd ac os nad ydych yn ymwneud â'r blaid sy'n rheoli ac yn pleidleisio iddi ni fyddwch yn llwyddo i gael y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnoch i oroesi a byddwch yn siŵr o gael eich hun mewn sefyllfaoedd treisgar. Felly roedd hynny'n ormod i fy nheulu, a theimlai fy mam fod yn rhaid inni adael y wlad. **Merch, 17, Zimbabwe***

Bedoon ydw i. Cawsom ein geni yn Kuwait ers cenedlaethau. Arferai fod gennym rai hawliau yn Kuwait ond does dim hawliau gan bobl Bedoon o gwbl mwyach. Heb genedligrwydd, rydym oll wedi colli ein hawliau fel dinasyddion Kuwait. Ym 1995 gallem wneud cais am genedligrwydd. Dim ond un flwyddyn, a daethant â hynny i ben. Dyma nhw'n cymryd y nifer oedd ei heisiau arnynt a doedd gan y gweddill, gan gynnwys y fi, ddim gwladwriaeth. Rydym oll yn ddi-wladwriaeth. Nid oeddent eisiau ein cydnabod...Ystyr Bedoon yn yr iaith Arabeg yw 'heb', heb genedligrwydd...Cefais fy nghyhuddo o weithred wleidyddol, am drefnu protest eistedd a gorymdaith yn erbyn y llywodraeth. Bum yn y carchar am 32 diwrnod...Roedd yn rhaid imi lofnodi papur. Dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod beth oedd ystyr hynny. Gallwch farw yn y carchar neu aros yno am byth. **Dyn, 25-34, Kuwait****

Rydyn ni'n ddiogel fan hyn. Does neb yn dod i'ch treisio. Ni ddaw'r heddlu i gymryd mantais ohonoch.

Menyw, 25-34, Burundi

A'r rheswm inni adael Affganistan oedd am nad oedd yn ddiogel inni, felly bu'n rhaid inni adael Affganistan er mwyn cael bywyd gwell a mwy diogel yn y Deyrnas Unedig. A'r rheswm nad oedd yn ddiogel inni oedd am fod sawl rhyfel yn Affganistan. Gwnaeth y rhan fwyaf o bobl adael Affganistan neu ddianc oddi yno, ond roeddem yn ffodus i fod â digon o arian i gael fisa i ddod i'r wlad hon neu i helpu fy nhad i ddod i'r wlad hon y tro cyntaf. Ond mae llawer, llawer o deuluoedd a phobl sydd heb arian ac maent yn mynd i Bacistan ac Iran. Mae gan y ddwy wlad hon filiynau o ffoaduriaid. Mae'n ofnadwy yn Iran, mae'n gwbl ofnadwy. Maent wedi eu cam-drin am lawer o resymau a chânt eu galw'n 'Affgani'. Mae bod yn Affgani yn Iran yn rhyw fath o warth oherwydd bod yr Affgani wedi'u trin yn wael iawn yn Iran – yn wael iawn – cawsant eu lladd, cawsant eu treisio, a chawsant eu herwgipio ac mae llawer o bethau wedi digwydd i'r Affgani yn Iran.

Bachgen, 17, Affganistan*

Nid Mwslim ydw i, Mandaead Sabiaidd ydw i. Mae'n rhaid ichi naill ai adael Irac neu newid eich crefydd. Es gyda fy rhieni i aros gyda ffrind o Gristion ond nid oedd hyn yn ddiogel. Tra'r oeddem yn aros gyda'n ffrind, cafodd llawer o Gristnogion eu lladd. Ystyriai fy rhieni fod hyn yn sefyllfa beryglus iawn, a dyma nhw'n dechrau cynllunio imi adael.

Dyn, 25-34, Irac**

Cefais fy erlid, cefais fy arteithio, fy sarhau, ac aflonyddwyd arnaf. Roedd gen i bopeth y gallech ddychmygu...Pan ddihangodd fy mrawd o Algeria, roedd y fyddin a'r *Gendarmes* yn chwilio amdano. Dyma nhw'n lladd fy nhad a fy mrawd. Dweud y gwir, doedden ni ddim yn gwybod am fy mrawd. Chlywon ni ddim byd pellach wedi iddynt ei gymryd ym 1998...ni chawsom unrhyw newyddion. Diflannodd 200,000 o bobl yn Algeria. Pan enillom yr etholiad, dyma'r fyddin yn ei ganslo a dechrau arteithio holl aelodau'r FIS [y Ffrynt Iachawdwriaeth Islamaidd]. Maent wedi agor gwersylloedd crynhoi yn yr anialwch.

Dyn, 35-44, Algeria,**

Ffynonellau: * Recordiadau sain a wnaed o gyfweliadau a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Plant
**Chance or choice? Understanding why asylum seekers come to the UK, Heaven Crawley, Ionawr 2010, Prifysgol Abertawe a Chyngor y Ffoaduriaid

OXFAM